



Estyn

Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Arolwg o'r trefniadau ar gyfer rheoli lles ac ymddygiad disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion

Ionawr 2012



Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▲ ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ▲ ysgolion cynradd;
- ▲ ysgolion uwchradd;
- ▲ ysgolion arbennig;
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion;
- ▲ ysgolion annibynnol;
- ▲ addysg bellach;
- ▲ colegau annibynnol arbenigol;
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned;
- ▲ hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- ▲ gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon;
- ▲ dysgu yn y gwaith;
- ▲ cwmnïau gyrfaoedd; a
- ▲ dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyflwyniad	1
Prif ganfyddiadau	2
Argymhellion	4
Pa mor dda yw'r trefniadau ar gyfer rheoli ymddygiad disgyblion?	5
Pa mor dda yw'r trefniadau ar gyfer rheoli lles disgyblion?	8
Pa mor dda yw cyngor, arweiniad a chymorth yr awdurdod lleol ar gyfer diogelu, rheoli ymddygiad ac ymyriadau corfforol cyfyngol?	11
Atodiad 1 Cylch gwaith a methodoleg yr arolwg	13
Atodiad 2 Arweiniad Llywodraeth Cymru ar reoli ymddygiad, ymyriad ac ataliad corfforol cyfyngol	14
Atodiad 3 Beth yw unedau cyfeirio disgyblion?	15
Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg	17

Cyflwyniad

- 1 Adroddiad ar arolwg o ddewis unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) ledled Cymru yw hwn. Fe'i cynhaliwyd gan arolygwyr Estyn ac arolygwyr Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod tymor yr hydref 2011. Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfres o ymweliadau byr rybudd a gynhaliwyd gan dîm o arolygwyr â saith UCD. Casglodd y tîm dystiolaeth am yr arweiniad y mae awdurdodau lleol yn ei roi i'w UCDau ar reoli ymddygiad ac ar ymyriad corfforol cyfyngol ac ataliad gan staff. Fe wnaeth y tîm hefyd gasglu tystiolaeth ynghylch pa mor dda y mae UCDau yn dilyn yr arweiniad hwn yn y ffordd y maent yn rheoli ymddygiad anodd yn eu gwaith o ddydd i ddydd, ac effaith hyn ar les y disgyblion. Mae mwy o fanylion am y cylch gwaith a'r fethodoleg lawn ar gyfer yr arolwg hwn ar gael yn Atodiad 1.
- 2 Mae'r tîm arolygu wedi arfarnu gwaith yr awdurdodau lleol a'u UCDau yng ngoleuni arweiniad Llywodraeth Cymru am strategaethau diogel ac effeithiol ar gyfer rheoli ymddygiad. Disgrifir prif nodweddion yr arweiniad yn fanylach yn Atodiad 2.
- 3 Canolfannau arhosiad byr ar gyfer disgyblion sy'n cael eu haddysgu heblaw mewn ysgolion a gynhelir neu ysgolion arbennig yw UCDau, ac maent yn amrywio'n sylweddol o ran maint a swyddogaeth. Mae UCDau yn derbyn disgyblion ag anawsterau ymddygiadol a disgyblion eraill sy'n agored i niwed oherwydd eu hiechyd neu anawsterau cymdeithasol ac emosiynol. Mae disgrifiad llawn o ddiben a gwaith UCDau ar gael yn Atodiad 3.
- 4 Mae'r adroddiad yn cyfeirio'n aml at ddefnyddio 'seibiant'. Mae'r term hwn yn cynnwys rhai o'r strategaethau a ddefnyddir mewn lleoliadau addysg fel rhan o'u 'pecyn canllawiau' rheoli ymddygiad ac y gellir eu defnyddio fel rhan o gynllun cymorth ymddygiad. Nid oes diffiniad ffurfiol o 'seibiant'. Fodd bynnag, byddai fel arfer yn cynnwys un neu fwy o'r canlynol:
 - rhoi amser a lle i ddisgybl i ffwrdd o'r dosbarth er mwyn iddo/iddi allu ymdawelu a rheoli ei (h)emosiynau;
 - atal disgybl rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau nes ei fod/bod yn rhoi'r gorau i ymddwyn mewn modd annymunol ac yn ymgymryd â'r gweithgaredd yn briodol;
 - gofyn neu roi cyfarwyddyd i'r disgybl adael y gweithgaredd a dychwelyd pan fydd yn teimlo'n barod i gymryd rhan a rhoi'r gorau i ymddwyn yn y fath fodd; a
 - gofyn i staff addysgu neu staff cymorth fynd gyda'r disgybl i leoliad arall i'w (h)atal rhag cymryd rhan mewn gweithgaredd am gyfnod penodol.

Prif ganfyddiadau

Rheoli ymddygiad

- 5 Mae staff addysgu a staff cymorth mewn UC Dau yn gwneud gwaith anodd gyda disgyblion y mae eu hymddygiad yn heriol. Mae llawer ohonynt yn ei wneud yn dda. Yn gyffredinol, mae UC Dau wedi rhoi polisiâu priodol ar waith i'w helpu yn eu gwaith gyda disgyblion bregus, y mae ymddygiad llawer ohonynt yn heriol. Fodd bynnag, nid yw pob polisi yn cynnwys digon o arweiniad defnyddiol ar gyfer staff, ac yn achos amddiffyn plant, nid ydynt bob amser yn amlinellu gweithdrefnau clir nac yn rhoi'r manylion cyswllt sydd eu hangen ar gyfer cyfeirio.
- 6 Mae chwe UC Dau wedi mabwysiadu strategaethau rheoli ymddygiad, ymyriad corfforol cyfyngol a dulliau ataliol y mae Sefydliad Anableddau Dysgu Prydain¹ (BILD) yn eu hachredu. Mae staff yn yr UC Dau hyn wedi'u hyfforddi'n dda ac maent yn defnyddio'r technegau hyn i dawelu sefyllfaoedd posibl o wrthdaro yn hyderus. Fodd bynnag, nid yw un UC wedi darparu'r hyfforddiant pwysig hwn ar gyfer ei staff, sy'n golygu bod disgyblion a staff yn agored i niwed petai digwyddiad o'r fath yn codi.
- 7 Yn yr arfer orau, mae staff UC yn addysgu disgyblion ynglŷn â sut i reoli eu hymddygiad eu hunain ac maent yn defnyddio cynlluniau rheoli ymddygiad ac asesiadau risg disgyblion unigol i'w helpu. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw systemau cynllunio disgyblion UC yn mynd i'r afael â rheoli ymddygiad anodd gyda disgyblion unigol yn ddigon da. Yn aml, nid ydynt yn defnyddio asesiadau risg disgyblion unigol nac asesiadau risg oddi ar y safle yn ddigon da i ddiogelu disgyblion a staff yn ddigonol. Nid yw UC Dau yn gwneud digon i fonitro ac arfarnu effaith eu harfer o ddydd i ddydd ar les ac ymddygiad disgyblion drostynt eu hunain.
- 8 Mae pob UC yn defnyddio rhyw fath o 'seibiant', fel rhan o'u strategaeth rheoli ymddygiad. Weithiau, mae disgyblion eu hunain yn gofyn am hyn; ar adegau eraill, mae staff yn gofyn i ddisgybl wneud hyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw UC Dau yn defnyddio manau dynodedig ar gyfer 'seibiant' sy'n diogelu neu'n hyrwyddo urddas y disgybl. Mae adroddiadau am ddigwyddiadau yn dangos bod 'seibiant' yn aml yn gysylltiedig ag ymyriad ac ataliad corfforol cyfyngol. Mewn rhai achosion, mae disgyblion yn dehongli 'seibiant' fel cosb yn hytrach na fel cyfle i ymdawelu ac adennill rheolaeth.

Lles disgyblion

- 9 Mae pob UC yn cadw ffeiliau disgyblion, sy'n cynnwys ystod o wybodaeth bersonol. Fodd bynnag, mae ansawdd y cofnodion hyn, y wybodaeth y maent yn ei chynnwys, a'r ffordd y caiff cofnodion eu rheoli yn wael ar y cyfan. Mae'r ffordd y caiff cofnodion

¹ Lansiodd y BILD ei gynllun achredu ymyriadau corfforol yn Ebrill 2002, ac fe'i diwygiodd yn ddiweddarach yn 2010. Mae BILD wedi cyhoeddi cod ymarfer ac arweiniad ar gyfer pobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu. Mae'r arweiniad hwn yn gosod safonau ar gyfer arfer broffesiynol, ac ar gyfer hyfforddi a datblygu staff proffesiynol. Mae'r cod ymarfer a'r safonau hyn yn cynrychioli arfer orau mewn strategaethau rheoli ymddygiad, ymyriad corfforol a dulliau atal ar hyn o bryd.

eu cadw yn anfoddfaol ar y cyfan. Pan fydd staff yn gwneud cyfeiriadau amddiffyn plant i wasanaethau cymdeithasol, nid ydynt bob amser yn eu cofnodi'n briodol. Ni all UC'Dau felly ddefnyddio eu cofnodion i roi cymorth rheolaidd i'r cynllunio effeithiol ar gyfer cefnogi a rheoli disgyblion. Yn y mwyafrif o achosion, nid yw swyddogion diogelu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn gwneud digon i herio neu gefnogi UC'Dau i wella eu harfer yn y maes hwn.

- 10 Mae holl staff UC'Dau yn ymgymryd â hyfforddiant diogelu ar haen un, ac mae staff dynodedig sydd â chyfrifoldebau diogelu yn ymgymryd â hyfforddiant mwy arbenigol. Fodd bynnag, nid oes gan bob awdurdod lleol systemau effeithiol i olrhain pa aelodau o staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn.
- 11 Yn gyffredinol, dywedodd disgyblion eu bod yn teimlo bod staff yn yr UC'Dau yn eu gwerthfawrogi ac yn gwrando arnynt. Dywedon nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael gofal a'u trin â pharch. Fodd bynnag, mewn cyferbyniad, fe wnaethant hefyd ddweud bod gwrthod mynd yn wirfoddol i gornel 'seibiant' yn achosi i staff fynd â nhw yno yn gorfforol a thrwy rym. Fe wnaethant ddweud hefyd fod eu hamharoddrwydd i fynd i gael 'seibiant' yn digwydd yn aml oherwydd yr amgylchedd gwael yn y gornel 'seibiant'. Yn rhy aml, mae disgyblion yn gweld 'seibiant' fel cosb yn hytrach na chyfle i ymdawelu a rheoli eu hemosiynau yn well.
- 12 Nid yw cwynion gan rieni neu ddisgyblion yn erbyn staff yn dilyn ataliadau yn cael eu cofnodi, eu hadrodd na'u hymchwilio mewn modd amserol bob amser, ac nid yw'r deilliannau'n cael eu cofnodi'n gywir ychwaith.

Awdurdodau lleol

- 13 Canolfannau arhosiad byr yw unedau cyfeirio disgyblion sy'n darparu addysg ar gyfer disgyblion bregus a heriol, ac wedyn fe gânt eu hailintegreiddio i ysgolion prif ffrwd. Yn wahanol i ysgolion, sydd â'u cyrff llywodraethol eu hunain, mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb uniongyrchol am ddarparu a rheoli UC'Dau. Maent yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn trwy reolaeth linell uniongyrchol a phenodi pwyllgorau rheoli.
- 14 Nid yw trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer llywodraethu a rheolaeth linell dros UC'Dau yn ddigon trylwyr. Nid yw rheolwyr llinell a phwyllgorau rheoli yn gwneud digon i ddwyn athrawon sydd â gofal i gyfrif am redeg yr UCD o ddydd i ddydd. Nid yw trefniadau adrodd yn canolbwyntio digon ar les disgyblion ac ar helpu UC'Dau i arfarnu eu strategaethau ar gyfer cefnogi disgyblion ag ymddygiad heriol.
- 15 Mae pob un o'r awdurdodau lleol y gwnaed arolwg ohonynt wedi cyhoeddi ystod briodol o bolisiâu ac arweiniad ar gyfer diogelu disgyblion, ar gyfer rheoli ymddygiad disgyblion ac ar gyfer defnyddio ymyriadau corfforol cyfyngol mewn ysgolion ac UC'Dau. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r arweiniad hwn yn glir ac yn hyrwyddo'r dull ar gyfer ymyriad ac ataliad corfforol cyfyngol sy'n cael ei ffafrio gan yr awdurdod lleol. Mae hyn yn helpu UC'Dau i sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi'n briodol yn unol â safonau cytûn. Fodd bynnag, nid yw awdurdodau lleol yn dilyn eu cyngor eu hunain wrth helpu UC'Dau i fonitro ac arfarnu'r ffordd y defnyddir strategaethau rheoli ymddygiad bob amser. Nid ydynt yn mynd ati'n ddigon da i nodi effaith y strategaethau hyn ar les disgyblion neu staff nac ar wella arfer rheoli ymddygiad mewn UC'Dau trwy hyfforddiant wedi'i dargedu'n well. Mae'r diffyg arfarnu ac adrodd hwn yn ei gwneud yn anodd i aelodau etholedig ac uwch swyddogion addysg gyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer diogelu disgyblion a phlant bregus yn briodol.

Argymhellion

Dylai awdurdodau lleol:

- A1 osod safonau clir ar gyfer defnyddio ymyriad ac ataliad corfforol cyfyngol gan UCDAu ac ar gyfer cadw cofnodion a sicrhau bod rheolwyr llinell, pwyllgorau rheoli ac aelodau etholedig yn gallu monitro'r rhain yn effeithiol;
- A2 gwneud yn siŵr bod adroddiadau am ddigwyddiadau yn cael eu defnyddio i lywio'r adolygiad o bolisiâu'r awdurdod lleol ar gyfer lles a diogelu disgyblion;
- A3 dwyn athrawon sydd â gofal i gyfrif yn effeithiol, trwy ddefnyddio trefniadau adrodd sy'n canolbwyntio ar les disgyblion, ac arfarnu'r strategaethau ar gyfer cefnogi disgyblion ag ymddygiad heriol;
- A4 sicrhau bod swyddog diogelu gwasanaeth addysg yr awdurdod lleol yn cefnogi cyfraniad yr UCD i adolygiadau achos disgyblion ac yn monitro cynnydd pob achos sy'n cael ei gyfeirio at wasanaethau cymdeithasol; a
- A5 gwneud yn siŵr bod pwyllgorau rheoli yn monitro pa mor dda y mae rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu ynglŷn ag ymddygiad eu plentyn a'r ffordd y mae staff yn ei reoli, a sicrhau bod yr UCD yn cofnodi, adrodd ac yn ymdrin yn briodol â phob cwyn gan rieni, gofalwyr a disgyblion.

Dylai unedau cyfeirio disgyblion (UCDAu):

- A6 adolygu eu polisiâu yn rheolaidd, a'u halinio ag arweiniad Llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol;
- A7 cyflwyno gwybodaeth yn glir i staff yn eu polisiâu a'u harweiniad ysgrifenedig;
- A8 cyflwyno hyfforddiant i bob un o'r staff mewn rheoli ymddygiad, ymyriad ac ataliad corfforol cyfyngol sy'n adlewyrchu arfer orau;
- A9 cofnodi digwyddiadau i gael manylion am yr hyn a ddigwyddodd yn gywir ac yn llawn o safbwynt pob un o'r staff a'r disgyblion dan sylw, ac unrhyw staff a oedd yn dyst i'r digwyddiad;
- A10 rhoi'r wybodaeth orau i bwyllgorau rheoli am les disgyblion, diogelu a dadansoddi digwyddiadau i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau rheoli yn llawn;
- A11 defnyddio asesiadau risg i wella'r ffordd y caiff ymddygiad disgyblion ei reoli, a rheoli gweithgareddau oddi ar y safle;
- A12 gwella trefniadau ffeilio a diweddarau gwybodaeth a chofnodion fel y gellir eu defnyddio yn effeithiol i ddiogelu disgyblion; a
- A13 sicrhau bod strategaethau rheoli ymddygiad yn cydymffurfio ag arfer orau ac yn defnyddio 'seibiant', i gefnogi disgyblion, wrth eu herio i wella eu hymddygiad eu hunain.

Pa mor dda yw'r trefniadau ar gyfer rheoli ymddygiad disgyblion?

- 16 Mae gan bob UCD ystod o bolisïau sy'n ymdrin â gwobrau a chosbau, rheoli ymddygiad, dianc, defnyddio ataliad, gwrth-fwlio, amddiffyn plant ac asesiadau risg. Mae llawer o'r polisïau hyn wedi cael eu haddasu o bolisïau generig a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae gormod o bolisïau nad ydynt yn adlewyrchu'n ddigon clir yr arfer o ddydd i ddydd yn yr UCD, nac yn rhoi cyngor digon buddiol i staff. Yn benodol, nid yw polisïau ac arweiniad ar gyfer amddiffyn plant yn rhoi cyngor clir i staff am y gweithdrefnau y dylent eu dilyn a'r manylion cyswllt ar gyfer staff dynodedig sydd eu hangen ar gyfer gwneud cyfeiriadau. Yn y rhan fwyaf o UCDAu, dibynnir yn ormodol ar ffyrdd anffurfiol o weithio, sy'n golygu y gellir osgoi polisïau ac adrodd.
- 17 Dim ond mewn UCD y mae gan reolwyr systemau priodol ar waith i adolygu eu polisïau yn flynyddol. Maent yn sicrhau bod staff yn wybodus ynglŷn â'r manylion yn y polisïau hyn a'u bod yn eu deall.

Defnyddio 'seibiant', rheoli ymddygiad, ymyriad corfforol cyfyngol ac ataliad

- 18 Mae chwe UCD wedi mabwysiadu dulliau rheoli ymddygiad, ymyriad corfforol cyfyngol ac ataliad a achredir gan BILD. Nodau'r dulliau hyn yw lleihau gwrthdaro trwy dynnu sylw disgyblion a'u tawelu, gan ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol diogel os daw hi i'r pen. Mae'r UCDAu hyn a'u hawdurdodau lleol yn darparu hyfforddiant rheolaidd yn y dulliau y maent yn eu ffafrio, gan ddefnyddio hyfforddwyr achrededig, y mae llawer ohonynt yn aelodau o'u staff eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o staff UCD yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant a gânt ac maent yn hyderus yn penderfynu pryd a sut i ddefnyddio'r dulliau hyn yn y gwahanol sefyllfaoedd y maent yn eu hwynebu. Yn yr arfer orau, caiff staff newydd eu hyfforddi fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu, ac fe gaiff medrau ymyriad ar gyfer staff presennol eu diwygio'n rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm.
- 19 Mewn un UCD, fodd bynnag, nid yw staff wedi cael hyfforddiant mewn technegau ymyriad corfforol cyfyngol ac ataliad gan nad ydynt yn gweld bod hyn yn flaenoriaeth. Mae'r diffyg hyfforddiant hwn yn golygu nad yw staff wedi cael eu paratoi, a bod disgyblion yn agored i ddefnydd amhriodol o ymyriad ac ataliad, pe bai rhywbeth yn digwydd.
- 20 Yn yr arfer orau, mae staff yn addysgu disgyblion ynglŷn â sut i reoli eu hymddygiad eu hunain. Gallai hyn gynnwys disgyblion yn gofyn am amser i ffwrdd o'r dosbarth pan fyddant yn teimlo bod angen hyn arnynt. Mewn un UCD, mae disgyblion yn defnyddio system 'goleuadau traffig' effeithiol i ddangos sut y maent yn teimlo, a nodi pryd y maent yn mynd yn ofidus neu'n flin. Mae'r defnydd effeithiol a wneir o systemau gwobrwyo hefyd yn helpu hyrwyddo ymddygiad da. Er enghraifft, gall disgyblion gasglu pwyntiau pan fyddant yn mynychu'n brydlon, yn ymddwyn yn dda neu'n gwneud gwaith da. Mae'r pwyntiau hyn yn rhoi cyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau, fel coginio, dringo neu bysgota.
- 21 Mae pob UCD hefyd yn defnyddio mathau o 'seibiant' fel rhan o'u strategaeth rheoli ymddygiad ar gyfer delio â disgyblion nad ydynt yn ymdopi'n dda yn amgylchedd yr

ystafell ddosbarth. Yn yr arfer orau, mae 'seibiant' yn rhan o gynllun rheoli ymddygiad ysgrifenedig disgybl, y mae UCDAu wedi cytuno iddo gyda rhieni neu ofalwyr.

- 22 Yn yr enghreifftiau gorau o 'seibiant', mae staff yn mynd gyda disgyblion ac yn monitro eu hymddygiad wrth ddefnyddio technegau tynnu sylw i'w helpu i gael rheolaeth. Strategaeth dda arall a ddefnyddir gan staff yw pan gaiff disgyblion eraill eu tynnu o'r ystafell ddosbarth i alluogi disgybl unigol i ymdawelu ar ei ben/phen ei hun.
- 23 Yn yr UCDAu y gwnaed arolwg ohonynt, roedd y gornel 'seibiant' a ddarperir a'r defnydd a wneir ohoni yn amrywio'n eang. Mae'r gornel 'seibiant' orau yn galluogi disgyblion i adennill rheolaeth a rheoli eu hemosiynau mewn amgylchedd diogel a chyfforddus. Yn y saith UCD:
- nid oes gan ddwy ohonynt ystafell ddynodedig ar gyfer 'seibiant', ond maent yn hytrach yn defnyddio manau agored, cyhoeddus lle gall disgyblion fynd i ymdawelu;
 - mewn un UCD, gall disgyblion adael yr adeilad ac eistedd y tu allan ar y grisiau blaen ar y brif stryd;
 - mae gan dair ohonynt ystafell y maent yn ei defnyddio ar gyfer 'seibiant', yn ogystal ag ar gyfer pethau eraill fel myfyrio tawel, cyfweliadau a chyfarfodydd;
 - mae gan ddwy ohonynt ystafelloedd dynodedig a ddefnyddir ar gyfer 'seibiant' yn unig, ac mae'r ddwy uned mewn cyflwr annerbyniol, wedi'u haddurno'n wael ac nid oes ganddynt lawer o ddodrefn, os o gwbl;
 - mae dwy ystafell yn rhy oer yn ystod misoedd y gaeaf;
 - er nad oedd unrhyw ystafelloedd 'seibiant' yn cael eu cloi yn rheolaidd tra oedd disgyblion ynddynt, roedd gan y rhan fwyaf ohonynt gloeon ar y drysau, ac mewn un ystafell, roedd dolen y drws yn rhy uchel i'r rhan fwyaf o ddisgyblion ei chyrraedd i adael eu hunain allan; ac
 - mewn un UCD, roedd staff wedi defnyddio'r ystafell i gyfyngu disgyblion yn amhriodol.

Monitro ac arfarnu arfer gan athrawon sydd â gofal

- 24 At ei gilydd, nid yw UCDAu yn cynnal cofnodion clir a threfnus o sut y maent yn rheoli ymddygiad heriol neu fanylion am y digwyddiadau sy'n codi. Mae pob UCD yn cadw cofnodion ynghylch pryd y mae staff yn defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol gyda disgyblion, a allai gynnwys ffilm camerâu cylch cyfyng. Fodd bynnag, mae'r cofnodion hyn yn aml yn fyr iawn, wedi'u cyflwyno'n wael ac nid ydynt yn cynnwys manylion pwysig. Nid yw staff bob amser yn llofnodi'r cofnodion hyn nac unrhyw ychwanegiadau y maent wedi'u gwneud yn ddiweddarach, sy'n ei gwneud yn anodd priodoli gweithredoedd a sylwadau i aelodau staff unigol.
- 25 Er bod y rhan fwyaf o bolisiau UCD yn nodi bod yn rhaid cofnodi fersiwn disgyblion o ddigwyddiadau mewn achosion difrifol, nid yw hyn yn digwydd yn ymarferol. Mae gormod o ffeiliau nad ydynt yn cynnwys datganiadau gan dystion eraill yn rheolaidd, neu gofnodion o sut y cafodd y digwyddiad ei ddatrys. Mae'r diffyg manylion yn golygu mai cyfyngedig yw'r defnydd a wneir o'r manylion at ddibenion archwilio ac arfarnu, ac maent yn dystiolaeth wael os bydd angen mynd i'r afael â chwyn neu

honiad o gam-drin proffesiynol.

- 26 Nid yw athrawon sydd â gofal a'u rheolwyr yn mynd ati'n rheolaidd i ddadansoddi digwyddiadau lle mae staff wedi defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol neu ataliad. O ganlyniad, nid ydynt yn arfarnu dull yr UC Dau ar gyfer rheoli ymddygiad, nodi'r materion wnaeth sbarduno'r digwyddiad, neu arfarnu ymatebion staff yn ddigonol. Nid ydynt felly yn gallu targedu hyfforddiant staff yn effeithiol.

Asesiadau risg

- 27 Yn gyffredinol, nid yw UC Dau yn gwneud defnydd da o asesiadau risg ar gyfer eu disgyblion a'r gweithgareddau y maent wedi'u cynllunio. Yn rhy aml, nid yw asesiadau risg disgyblion UC Dau yn nodi ac yn mynd i'r afael yn ddigonol ag anghenion disgyblion unigol, a pha mor fregus ydynt. O ganlyniad, nid yw hyn yn amddiffyn disgyblion a staff yn ddigonol.
- 28 Yn yr enghreifftiau gorau, fodd bynnag, mae UC Dau yn cynnwys rhieni neu ofalwyr ac asiantaethau eraill yn dda wrth ddatblygu asesiadau risg disgyblion unigol. Wedyn, mae UC Dau yn defnyddio'r rhain yn briodol i ddatblygu cynlluniau ymddygiad ar y cyd a rhoi amgylcheddau gweithio diogel a chefnogol ar waith.
- 29 Mewn un UCD, gwneir defnydd da o system ar-lein yr awdurdod lleol i lunio asesiadau risg sy'n cynnwys manylion priodol ar gyfer ymweliadau oddi ar y safle. Mae'r dull a ddefnyddir gan yr UCD hon hefyd yn sicrhau bod pob un o'r staff yn cael hyfforddiant addas a chyfoes ar gyfer gweithgareddau oddi ar y safle a hyfforddiant fel gyrrwr bws mini. Yn rhy aml, mae UC Dau yn gweld bod asesiadau risg yn rhy fiwrocraidd ac nad ydynt yn offeryn defnyddiol ar gyfer rheolwyr da.

Pa mor dda yw'r trefniadau ar gyfer rheoli lles disgyblion?

Rheoli ffeiliau a chofnodion disgyblion

- 30 Mae pob UCD yn cadw ffeiliau disgyblion, sy'n cynnwys ystod o ddata personol. Mae'r ffeiliau hyn yn cynnwys gwybodaeth am gyfeirio, cyflawniad addysgol ac asesiadau, cofnodion o ddigwyddiadau, cynlluniau personol, a gwybodaeth am amddiffyn plant. Fodd bynnag, mae ansawdd a chynnwys y cofnodion hyn a'r ffordd y cânt eu rheoli yn wael ar y cyfan. Mae pob UCD yn defnyddio systemau lluosog i gofnodi eu gwybodaeth. O ganlyniad, caiff gwybodaeth am ddisgybl ei rhoi mewn nifer o leoedd gwahanol, sy'n ei gwneud yn anodd cadw trosolwg o les a chynnydd y disgyblion.
- 31 Yn aml, nid yw cofnodion disgyblion yn cynnwys gwybodaeth bwysig am ddiogelu, sy'n ddefnyddiol ar gyfer rheoli lles disgybl. Er enghraifft, mae dogfennau sy'n cyfeirio at statws cyfreithiol y disgybl, neu eu cynlluniau statudol, ar goll. Mewn rhai achosion, nid yw'r UCD ei hun yn nodi bod gwybodaeth bwysig ar goll o ffeil disgybl neu nad ydynt wedi cael y wybodaeth gan yr ysgol sy'n cyfeirio'r disgybl.
- 32 Nid oes gan staff ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd cadw cofnodion yn dda ac nid yw'n cael ei weld yn rhan o fusnes craidd yr UCD. Nid yw staff yn defnyddio eu cofnodion i fynd ati'n rheolaidd i gefnogi cynllunio a rheoli disgyblion yn effeithiol.

Hyfforddiant diogelu

- 33 Mae pob UCD wedi mynd ati'n briodol i nodi diogelu fel un o'u meysydd hyfforddiant craidd ar gyfer staff. Mae hyfforddiant diogelu yn dilyn dull haenau yn gyffredinol, o dan ymbarél y Bwrdd Lleol ar gyfer Diogelu Plant (BLIDP), ac mae'r rhan fwyaf o staff UCD yn cael hyfforddiant haen un.
- 34 Yn gyffredinol, mae hyfforddiant haen un yn cynnwys cwrs dwy neu dair awr, sy'n aml yn cael ei ddarparu gan swyddog diogelu'r gwasanaethau addysg. Mae staff a benodwyd yn ddiweddar yn cael hyfforddiant cychwynnol fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu, sy'n aml ar ffurf taflen neu lawlyfr, yn amlinellu gwybodaeth sylfaenol am rolau a chyfrifoldebau. Mae'r aelod dynodedig o staff ar gyfer diogelu yn y rhan fwyaf o UCDAu yn briodol yn cael hyfforddiant manylach sy'n adlewyrchu eu cyfrifoldebau ychwanegol. Mae pob awdurdod lleol yn darparu hyfforddiant gloywi, fel arfer ar sail cylch tair blynedd.
- 35 Fodd bynnag, nid oes gan bob awdurdod lleol systemau effeithiol ar gyfer nodi pa aelodau o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant. Er enghraifft, mewn un UCD, nid oedd aelod o staff wedi cael unrhyw hyfforddiant diogelu er ei fod/bod wedi bod yn ei swydd ers sawl blwyddyn.

Amddiffyn plant

- 36 Mae staff mewn UCDAu yn gwybod bod ganddynt gyfrifoldebau am amddiffyn plant, ac maent yn gwneud cyfeiriadau at y gwasanaethau cymdeithasol. Mewn tri achos diweddar, nododd UCDAu yn briodol fod eu pryderon yn bodloni meini prawf trothwy'r

awdurdod ar gyfer cyfeirio, ac fe wnaethant y cyfeiriadau mewn modd amserol. Fe wnaethant roi gwybodaeth i'r gwasanaethau cymdeithasol dros y ffôn ac yn ysgrifenedig yn unol ag arweiniad lleol a Chymru Gyfan. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, mae'r wybodaeth a gofnodir gan UC'Dau sy'n berthnasol i gyfeiriadau yn anghyflawn ac yn anhrefnus. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd iddynt olrhain y deilliannau ar gyfer y disgyblion hyn. Mewn un achos, gwnaeth UC'D gyfeiriad llafar at y gwasanaethau cymdeithasol, ond wedyn methodd ddilyn arweiniad Cymru Gyfan a'i chanllawiau manylach ei hun trwy beidio â darparu'r wybodaeth yn ysgrifenedig hefyd. Mae'r diffyg cofnod ysgrifenedig hwn yn golygu na allai'r UC'D sicrhau yn effeithiol bod ei phryderon wedi cael eu trin yn briodol.

- 37 Mae gan bob UC'D bolisiau ar gyfer amddiffyn plant. Er bod y polisiau hyn yn cydymffurfio â chanllawiau lleol a chenedlaethol ar y cyfan, maent yn amrywio o ran lefel y manylion y maent yn eu darparu. Mewn rhai achosion, mae polisiau yn amlinellu'n dda beth yw nod trosfwaol yr UC'D i ddiogelu disgyblion. Fodd bynnag, nid yw llawer o bolisiau yn darparu digon o wybodaeth, fel yr enwau a'r manylion cyswllt ar gyfer y swyddog dynodedig ar gyfer amddiffyn plant, i helpu staff i wneud cyfeiriad.

Llais y disgybl

- 38 Yn gyffredinol, dywed disgyblion eu bod yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi gan staff yn yr UC'Dau. Ym mhob UC'D, dywedodd disgyblion eu bod yn teimlo bod pobl yn gwranddo arnynt a bod staff yn gofalu amdanynt ac yn dangos parch atyn nhw a'u teuluoedd.
- 39 Mae gan ryw hanner yr UC'Dau gynghorau ysgol, sy'n helpu disgyblion i drafod eu diddordebau a'u pryderon gyda staff. Dywedodd bron pob disgybl eu bod yn hoffi'r 'tawelwch' yn amgylchedd yr UC'D o'i gyferbynnu â'u hysgolion blaenorol. Teimlai llawer o ddisgyblion eu bod yn cael cymorth ar gyfer dychwelyd i'w haddysg prif ffrwd.
- 40 Roedd llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gael 'seibiant'. Roedd disgyblion yn gweld hwn yn gyfle i adael yr ystafell ddosbarth os oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cynhyrfu. Fodd bynnag, ym mhob uned heblaw un, roedd disgyblion hefyd yn cysylltu eu disgrifiad o 'seibiant' â defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol gan staff. Yn rhy aml, canfyddiad disgybl oedd bod gwrthod mynd yn wirfoddol i'r gornel 'seibiant' yn golygu bod staff yn mynd â nhw yno trwy rym. Mae disgyblion yn cydnabod y gallai hyn fod yn ymateb i'w hymddygiad anodd eu hunain, ond fe wnaethant ddisgrifio teimlo dan fygythiad ac embaras o flaen eu cyfoedion.
- 41 Yn aml, dywedodd disgyblion fod eu hamharodrwydd i gael 'seibiant' yn gysylltiedig â'r amgylchedd gwael yn y gornel 'seibiant'. Yn rhy aml, mae disgyblion yn gweld 'seibiant' fel cosb yn hytrach na chyfle i ymdawelu.
- 42 Roedd pob disgybl a drafododd ymyriad corfforol cyfyngol yn derbyn y bydd angen i staff ddefnyddio technegau atal ar adegau i ymateb i ymddygiad heriol. Fodd bynnag, dywedodd rhai disgyblion fod atal wedi arwain at gleisio, yn enwedig os oeddent wedi ymaflyd wrth iddynt gael eu dal.
- 43 Nid yw UC'Dau yn rhoi cyfle i ddisgyblion ychwanegu eu sylwadau at adroddiadau am ddiwyddiadau yn dilyn ymyriad.

- 44 Nid ymchwilir yn drylwyr bob amser i gŵynion gan rieni neu ddisgyblion yn erbyn staff, ni roddir gwybod i'r awdurdod lleol amdanynt mewn modd amserol, ac ni chaiff deilliannau'r gŵyn eu cofnodi'n gywir chwaith.

Pa mor dda yw cyngor, arweiniad a chymorth yr awdurdod lleol ar gyfer diogelu, rheoli ymddygiad ac ymyriadau corfforol cyfyngol?

Polisi ac arweiniad awdurdodau lleol ar reoli ymddygiad disgyblion

- 45 Mae pob un o'r awdurdodau lleol y gwnaed arolwg ohonynt wedi rhoi'r ystod briodol o bolisiâu ac arweiniad ar waith ar gyfer diogelu disgyblion, ar gyfer rheoli ymddygiad disgyblion ac ar gyfer defnyddio ymyriadau corfforol cyfyngol. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae eu polisiâu yn cynnwys arweiniad penodol ynglŷn â defnyddio dulliau o ymyriad ac ataliad corfforol cyfyngol a gydnabyddir gan Sefydliad Anableddau Dysgu Prydain (BILD). Mae hyn yn golygu bod yr awdurdod lleol wedi rhoi meincnod ar waith y gall ysgolion unigol a'u cyrff llywodraethol, a'u UCDAu gynllunio yn unol ag ef a rheoli hyfforddiant staff mewn rheoli ymddygiad.
- 46 Nid yw un awdurdod lleol, fodd bynnag, yn argymhell unrhyw ddull sy'n cael ei ffafrio ar gyfer rheoli ymddygiad disgyblion ac ymyriad corfforol cyfyngol. Yn yr awdurdod lleol hwn, mae ysgolion ac UCDAu yn penderfynu drostynt eu hunain pa ddull i'w addasu. Gallai hyn arwain at amrywiad eang o ddulliau ar draws y ddarpariaeth, heb unrhyw hyfforddiant cyffredin neu lefelau derbyniol o arfer.
- 47 Mae arweiniad Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio ymyriad ac ataliad corfforol cyfyngol yn argymhell y dylai awdurdodau lleol gasglu ystod o wybodaeth i arfarnu'r ffordd y caiff polisi ac arweiniad eu rhoi ar waith, a nodi materion a thueddiadau. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, nid yw swyddogion yn casglu'n rheolaidd nac yn monitro'n drylwyr adroddiadau am ddigwyddiadau ymddygiad heriol disgyblion neu'r ffordd y mae staff yn defnyddio ymyriad corfforol cyfyngol.
- 48 Ar gyfer y cyfnod dan adolygiad (Medi 2010 i Dachwedd 2011), ychydig iawn o adrannau addysg awdurdodau lleol sydd wedi cyflwyno unrhyw fath o adroddiad i bwyllgorau cabinet neu graffu am:
- ymddygiad disgyblion;
 - patrymau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg mewn rheoli ymddygiad ac ymyriad ac ataliad corfforol cyfyngol; ac
 - anghenion hyfforddi staff o ran y materion hyn.
- 49 Mae'r diffyg arfarnu ac adrodd hwn yn ei gwneud yn anodd i aelodau etholedig ac uwch swyddogion addysg gyflawni eu cyfrifoldebau yn briodol ar gyfer diogelu disgyblion a phlant bregus.

Rheolaeth awdurdodau lleol ar UCDAu

- 50 Yn wahanol i ysgolion, nid oes gan UCDAu gyrff llywodraethol. Yn hytrach, mae awdurdodau lleol yn cadw'r cyfrifoldeb statudol am eu rheoli. Ym mhob awdurdod lleol ac eithrio un, mae uwch swyddog addysg awdurdod lleol yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn trwy fod yn rheolwr llinell uniongyrchol dros yr athro sydd â gofal am yr UCD. Yn yr awdurdod lleol arall, pennaeth yr ysgol arbennig yw'r rheolwr llinell.
- 51 Mae arweiniad Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob awdurdod lleol sefydlu

pwyllgorau rheoli ar gyfer ei UC'Dau. Ar draws y saith awdurdod lleol y gwnaed arolwg ohonynt, yn yr achosion gorau, mae gan y pwyllgorau rheoli hyn gylch gorchwyl wedi'i ysgrifennu'n glir sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau i helpu pwyllgorau rheoli i gyflawni eu swyddogaeth gymorth. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion, mae diffyg manylion digonol yn y cylch gorchwyl i roi diffiniad clir o gwmpas a chyfyngiadau rôl y pwyllgor rheoli. Yn yr achosion hyn, nid yw'n glir pa mor bell y gall y pwyllgor rheoli fynd o ran arfer rheolaeth a faint o'i rôl sy'n ymgynghorol.

- 52 Mae aelodaeth llawer o bwyllgorau rheoli yn cynnwys ystod briodol o randdeiliaid, fel penaethiaid, gwasanaethau awdurdodau lleol sy'n ymwneud â rheoli ymddygiad disgyblion a phobl ifanc, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol a thimau troseddau ieuencid (TTIau). Fodd bynnag, mewn rhai UC'Dau, mae aelodaeth y pwyllgor rheoli yn gyfyng iawn. Nid yw'n cynnwys ystod ddigon eang o randdeiliaid i herio a chefnogi'r UC'D yn ei gwaith.
- 53 Er gwaethaf arweiniad yr awdurdodau lleol ar reoli ymddygiad, yn y rhan fwyaf o UC'Dau, nid yw athrawon sydd â gofal a'u rheolwyr llinell yn monitro adroddiadau am ddigwyddiadau ymddygiad heriol disgyblion neu ymyriad staff yn rhagweithiol. O ganlyniad, nid ydynt yn gallu nodi'n hawdd:
- y tueddiadau sy'n dod i'r amlwg ynglŷn â pha mor dda y mae staff UC'D yn rheoli digwyddiadau;
 - pa mor dda y mae asesiadau risg a chynlluniau ymddygiad disgyblion yn cyfrannu i reoli ymddygiad yn well; ac
 - effaith asesiadau risg a chynlluniau ymddygiad ar les a diogelu disgyblion.
- 54 Yn y rhan fwyaf o UC'Dau y gwnaed arolwg ohonynt, cofnodion gwael o'r cyfarfodydd yw cofnodion y pwyllgor rheoli yn gyffredinol. Mae adroddiadau gan athrawon sydd â gofal yn aml yn rhy syml, ac yn aml, nid ydynt yn cynnwys gwybodaeth am faterion pwysig o ran diogelu a lles. Mae diffyg manylion ac arfarniad digonol ynddynt i alluogi'r pwyllgor rheoli i fonitro a herio cymorth yr UC'Dau i ddisgyblion bregus, neu effaith strategaethau rheoli ymddygiad. Nid yw eitemau parhaol ar agendâu yn gofyn i athrawon sydd â gofal adrodd yn fanwl gywir ar faterion ymddygiad, ymyriadau ac ataliad corfforol cyfyngol, cwynion gan rieni neu ddisgyblion a lles cyffredinol disgyblion. Yn hytrach, mae'r pwyllgorau rheoli yn dibynnu gormod ar adrodd trwy eithriad, sy'n golygu y gall materion pwysig gael eu hanwybyddu.
- 55 Nid yw'r awdurdod lleol a'r pwyllgor rheoli yn mynd ati'n effeithiol i fonitro pa mor dda y mae'r dull o ymyriad a rheoli ymddygiad sy'n cael ei ffafrio yn gweithio mewn gwirionedd. Yn benodol, ni roddir digon o sylw i ddefnyddio 'seibiant' gan staff a disgyblion, a ph'un a yw'r defnydd hwnnw ynglŷn ag ymddygiad a rheolaeth emosiynol neu ynglŷn â chosbi. Felly, mewn rhai o'r UC'Dau, nid yw'r athrawon sydd â gofal, eu rheolwyr llinell a'u pwyllgorau rheoli wedi sylwi ar faterion difrifol posibl ynglŷn â defnyddio 'seibiant' at ddibenion neilltuo neu gosbi.
- 56 Nid yw cyfraniad swyddog diogelu gwasanaeth addysg yr awdurdod lleol i gefnogi a herio UC'Dau yn glir bob amser. Yn yr enghraifft orau, mae'r swyddog diogelu yn cadw cofnod manwl o gyfeiriadau diogelu disgyblion a honiadau yn erbyn pobl broffesiynol. Maent yn defnyddio hyn yn dda i gefnogi cyfraniad yr UC'D i adolygiadau achos disgyblion a monitro cynnydd achosion. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr awdurdodau lleol yn cofnodi'r wybodaeth hon yn dda nac yn ei defnyddio'n effeithiol i herio'r ffordd y caiff diogelu ei reoli gan UC'Dau.

Atodiad 1: Cylch gwaith a methodoleg yr arolwg

Dewisodd Estyn y saith UCD yn yr arolwg o blith y rhai na chawsant eu harolygu yn y cylch arolygu presennol, a ddechreuodd ym Medi 2010, ac nad ydynt eisoes wedi'u rhaglennu ar gyfer eu harolygu rhwng Medi 2011 a Mawrth 2012. Ystyriwyd lleoliad yr UCDAu hyn hefyd er mwyn sicrhau ymweliadau â phob un o'r pedwar rhanbarth consortia awdurdod lleol yng Nghymru.

Ar fore pob ymweliad, rhoddodd Estyn awr o rybudd i'r awdurdod lleol a'i UCDAu. Rhoddwyd y rhybudd hwn i'r awdurdod lleol a'r UCD i roi digon o amser iddynt sicrhau bod y staff allweddol yr oedd eu hangen ar gyfer cyfweiliad ar gael, ac er mwyn i'r awdurdod lleol anfon dogfennau perthnasol at y tîm arolygu.

Yn ystod pob ymweliad, edrychodd y tîm arolygu ar bolisiâu ac arweiniad yr awdurdod lleol a'r UCD ar gyfer diogelu, amddiffyn plant, rheoli ymddygiad a defnyddio ymyriad ac ataliad corfforol cyfyngol. Edrychodd y tîm hefyd ar ffeiliau disgyblion unigol, yn cynnwys cynlluniau cymorth ymddygiad unigol ac asesiadau risg, lle'r oedd y rhain ar gael. Darllenodd arolygwyr adroddiadau am ddigwyddiadau, adroddiadau pwyllgorau rheoli ac unrhyw adroddiadau perthnasol a wnaed gan swyddogion awdurdodau lleol i aelodau etholedig. Fe wnaeth arolygwyr hefyd gyfweild â rheolwyr llinell awdurdodau lleol, swyddogion diogelu gwasanaethau addysg, athrawon sydd â gofal, staff addysgu a chymorth a disgyblion.

Atodiad 2: Arweiniad Llywodraeth Cymru ar reoli ymddygiad, ymyriad ac ataliad corfforol cyfyngol

Mae'r sylfaen gyfreithiol ar gyfer arweiniad Llywodraeth Cymru ar reoli ymddygiad, ac ar ddefnyddio ymyriad ac ataliad corfforol cyfyngol diogel gyda phlant a phobl ifanc yn cynnwys: y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; Adran 550A Deddf Addysg 1966 (a ddisodlwyd yn ddiweddarach gan Adran 93 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006); a Deddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arweiniad manwl ar gyfer awdurdodau lleol ynglŷn â'u rôl mewn datblygu polisiâu gyda'u hasiantaethau statudol ar ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol diogel gyda phlant a phobl ifanc. Dyma'r rhai diweddaraf:

- nodyn arweiniad Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu polisiâu ar ymyriad corfforol cyfyngol o fewn asiantaethau statudol a gyhoeddwyd yn 2005, o'r enw'r *Fframwaith ar gyfer Polisi ac Arferion o ran Ymyriad Corfforol Cyfyngol*; ac
- arweiniad a gyhoeddwyd yn 2010 i awdurdodau lleol, ysgolion ac UCDAu ar *Ymyriad diogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau*.

Mae nodyn arweiniad 2005 yn diffinio ymyriadau corfforol cyfyngol fel:

“Cyswllt corfforol uniongyrchol rhwng pobl lle caiff grym rhesymol ei ddefnyddio'n gadarnhaol yn erbyn gwrthwynebiad, naill ai i gyfyngu symudiad neu symudedd neu i ymddieithrio o ymddygiad niweidiol a ddangosir gan unigolyn”.

Mae arweiniad 2010 yn rhoi cyngor manwl iawn i awdurdodau lleol, ysgolion ac UCDAu ynglŷn â sut i ysgrifennu polisiâu, hyfforddiant ar gyfer staff, cofnodi digwyddiadau, a monitro ac arfarnu ymyriad ac ataliad corfforol cyfyngol gyda disgyblion.

Mae'r athro sydd â gofal am yr UCD yn gyfrifol am hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, yn amodol ar unrhyw egwyddorion cyffredinol a nodwyd gan y pwyllgor rheoli. Yn dilyn arweiniad Llywodraeth Cymru, dylai fod gan bob awdurdod lleol a'i UCD bolisi clir ar y ffordd y maent yn rheoli ymddygiad a'u defnydd o ymyriad corfforol cyfyngol. Dylai'r polisiâu hyn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a disgwyliadau uchel o ddisgyblion, ac ymdrin â'r modd y bydd yr UCD yn delio â bwlio. Dylai awdurdodau lleol a'u UCDAu adolygu'r polisiâu hyn yn flynyddol a'u diwygio yng ngoleuni arweiniad dilynol ac arfarnu arfer.

Atodiad 3: Beth yw unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)?

Cymerwyd y disgrifiad canlynol o Gylchlythyr Rhif: 47/2006 Llywodraeth Cymru, Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion.

Nid ysgol prif ffrwd neu ysgol arbennig yw uned cyfeirio disgyblion (UCD), ond mae'n gyfreithiol yn fath o ysgol ac addysg heblaw yn yr ysgol. Mae awdurdodau lleol yn gweithredu modelau gwahanol o ddarpariaeth UCD, a ddatblygwyd i fodloni amgylchiadau lleol ac yn unol â pholisïau lleol. Mae modelau o ddarpariaeth gan awdurdodau lleol y gellir eu cynnwys yn y term cyffredinol UCD yn cynnwys:

- darpariaeth ar un safle;
- darpariaeth ar sawl safle o dan un strwythur rheoli;
- gwasanaeth cyfeirio disgyblion peripatetig (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig);
- darpariaeth "e-ddysgu" sy'n defnyddio TGCh ac adnoddau ar y we;
- gwasanaethau addysgu yn yr ysbyty a gartref, neu rannau ar wahân o wasanaeth sy'n darparu addysg mewn uned neu leoliad math ysgol;
- rhywfaint o ddarpariaeth ysbyty;
- darpariaeth ar wahân ar gyfer mamau ifanc / disgyblion beichiog; a
- darpariaeth ymbarél i gofrestru disgyblion sy'n dilyn rhaglenni unigol.

Disgwylir i awdurdodau lleol sefydlu pwyllgor rheoli ar gyfer eu UCDau, sy'n cynnwys aelodaeth sy'n adlewyrchu natur amlasiantaethol y ddarpariaeth. Gallai'r aelodaeth gynnwys:

- penaethiaid ysgolion a gynhelir o fewn yr awdurdod lleol;
- swyddogion yn yr awdurdod lleol sydd â gwybodaeth neu brofiad o weithio gyda phobl ifanc ag anawsterau ymddygiadol;
- cynrychiolwyr o'r adrannau gwasanaethau cymdeithasol a'r bwrdd iechyd lleol;
- yr athro sydd â gofal am yr UCD;
- staff eraill yr UCD;
- Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig;
- rhieni disgyblion sy'n mynychu'r UCD ar hyn o bryd, neu a oedd yn ei mynychu yn y gorffennol;
- llywodraethwyr ysgolion lleol;

Arolwg o'r trefniadau ar gyfer rheoli lles ac ymddygiad disgyblion
mewn unedau cyfeirio disgyblion – Ionawr 2012

- cynrychiolwyr sefydliadau gwirfoddol neu gymunedol;
- cynrychiolwyr busnesau lleol, colegau/prifysgolion, Gwasanaeth Ieuencid, Gyrfa Cymru, coleg AB lleol, tîm troseddau ieuencid neu'r heddlu; ac
- aelodau etholedig o'r awdurdod lleol.

Mae gan y pwyllgor rheoli rôl mewn trefniadau UCD am y canlynol:

- derbyniadau;
- disgyblu;
- presenoldeb;
- y cwricwlwm; a
- gweithredu ar ôl arolygiad.

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Gerard E Kerlake AEM	Arolygydd Cofnodol
Katy Young AGGCC	Arolygydd Tîm
Rosemary Lait AEM	Arolygydd Tîm
Mike Munting AEM	Arolygydd Tîm